# Gwaelod y Garth

Cylchlythyr Wythnosol / Weekly Newsletter

**18.10.24**




## Gair gan y Pennaeth – Headteacher's greeting

Cawsom wythnos o ddangos ein lliwiau yr wythnos hon wth i ni nodi dau ddigwyddiad pwysig i ni fel cymuned ysgol. Bu Diwrnod Shw'Mae Su'Mae yn llawn hwyl ac *ystyr* wrth i ni drafod eitemau a oedd yn bwysig i ni fel Cymry. Ac yna heddiw, cyfle i wisgo coch i ddangos ein gwrthwynebiad i hiliaeth. Diolch am bob cefnogaeth gyda'r ddau achlysur. Diolch hefyd am eich cefnogaeth yn nosweithiau rhieni pwysig yr wythnos hon.

Roedd hi'n deimlo'n briodol iawn gallu lansio ein cyfrif **Instagram** ar ddiwrnod o ddathlu Cymreictod. Diolch i chi am bob cefnogaeth ar Instagram – cofiwch rannu gyda ffrindiau a theulu ymhell ac agos! Os na ydych eto wedi cwblhau'r ffurflen caniatâd, plîs gwnewch cyn gynted ac sy'n bosib. Mae angen hwn arnom i ddeall eich dymuniadau naill ffordd neu'r llall. Ni fydd modd i ni gynnwys lluniau eich plant tan ein bod yn derbyn ffurflen wedi'i gwblhau. Fe nodwch bod Cylchlythyr yr wythnos hon yn ôl i'w hyd arferol wrth i ni ddefnyddio Instagram bellach i rannu uchafbwyntiau'r wythnos.

Edrychwn ymlaen at weld cynifer ohonoch ag sy'n bosib yn dod i Dathliad Cynhaeaf yr ysgol ar Ddydd Mawrth. Cofiwch archebu tocynnau (mae 2 ar gael i bob teulu) os nad ydych wedi gwneud yn barod. Wrth i ni ddiolch am y cynhaeaf, byddwn hefyd yn gwneud casgliad i **Banc Bwyd Caerdydd** (manylion isod) ac yn casglu wrth gatiau'r ysgol ar Ddydd Iau a Dydd Gwener wythnos nesa. Diolch ymlaen llaw i chi am bob cyfraniad.

Rydym ar hyn o bryd yn chwilio am **wirfoddolwr darllen** i ddarllen yn unigol gyda phlant yr ysgol – cysylltwch â ni os oes gennych ddiddordeb helpu. Diolch eto!

- - - - -

We had a week of showing our colours this week as we marked two important events for our school community. Shw'Mae Su'Mae Day was fun and also *meaningful* as we discussed objects important to our individual Welsh identity. Today, we had an opportunity to wear red to support for anti-racism. *Diolch* for your support with both occasions. *Diolch* too for your support at this week's important parents' evenings.

It felt very appropriate to be able to launch our new **Instagram** account on a day of celebrating our *Cymrecitod*. Thank you for your support on Instagram – don't forget to share with friends and family far and wide! If you have not yet completed the consent form, please do so immediately. We need this to understand your wishes either way. We will not be able to include your children in pictures until we receive a completed form. You'll note that this week's Newsletter is back to its normal length as we turn to Instagram to share picture highlights of the week.

We look forward to seeing as many of you as possible at our school **Harvest Celebration** next Tuesday. Please to book your tickets (2 are available per family) if you haven't already. As we give thanks for the world's harvests, we will also be making a collection for **Cardiff Foodbank** (details below) and gathering at the school gates on Thursday and Friday next week. Thank you in advance for all contributions.

We are currently looking for **reading volunteers** to read individually with children – please contact us if you are interested in helping. Diolch eto – thank you again!

## Dyddiadau Pwysig
## *Important Dates*

**22.10.24**
**Mawrth / Tuesday**
Dathliad Cynhaeaf
*Harvest Celebration*

**24.10.24**
**Iau / Thursday**
Diwrnod dim gwisg ysgol (a toesion!)
*Non-uniform day (and donughts!)*

**25.10.24**
**Gwener / Friday**
Diwrnod HMS
*INSET day*

**28.10.24 – 1.11.24**
Gwyliau Hanner Tymor
Half Term Holiday

Cofiwch hefyd am ein calendr byw sydd ar gael i'w lawrlwytho ar dudalen cartref gwefan yr ysgol.

Our live calendar is available to download on our school website's homepage.







Casgliad Banc Bwyd Ysgol Gwaelod y Garth 23/10/24 a 24/10/24

Ysgol Gwaelod y Garth Food Bank Collection 23/10/24 and 24/10/24

